**<u>Pwyllgor Diwylliant – CC-15-01(p.4)</u>**

**Dyddiad:** 24ain Hydref 2001

**Amser:** 10.00am-13.00pm

**Lleoliad:** Neuadd Brangwyn, Abertawe

## <u>Mudiad Ysgolion Meithrin</u>

### Cefndir Byr *

Sefydlwyd Mudiad Ysgolion Meithrin mewn cyfarfod cyhoeddus ym 1971 mewn ymateb i Gyfrifiad y flwyddyn honno a ddangosai sefyllfa argyfyngus yr iaith Gymraeg. Dangosai'r Cyfrifiad hwnnw mai 9,745 o blant rhwng tair a phedair oed yn unig a oedd yn medru'r iaith, "*nifer*, fel y nododd Cennard Davies, *y gellid ei gynnwys o fewn pafiliwn yr Eisteddfod Genedlaethol*"

Amcangyfrifwyd fod oddeutu 65 o ysgolion meithrin cyfrwng Cymraeg yn bodoli ym mlwyddyn sefydlu'r Mudiad. Erbyn hyn, mae wedi tyfu yn fudiad cenedlaethol cryf ac uchel ei barch, gydag ymron i fil o gylchoedd yn perthyn iddo. Ar y cychwyn, dau nod syml oedd gan y Mudiad newydd hwn, sef

- Sefydlu a datblygu addysg feithrin Gymraeg, a
- Cefnogi a hyrwyddo addysg Gymraeg

Cydnabyddir mai'r Mudiad sydd wedi bod yn bennaf gyfrifol am y twf yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg rhwng 3 a 15 oed a nodwyd yng Nghyfrifiadau '81 a '91. Cyflawnwyd hyn trwy sefydlu, cefnogi a bugeilio cylchoedd meithrin a chylchoedd Ti a Fi (cylchoedd rhiant a phlentyn) ledled Cymru, ac yna trwy annog rhieni i adeiladu ar waith da'r cylchoedd a gyrru eu plant ymlaen i addysg Gymraeg. Mae'n gwneud hyn trwy rwydwaith cenedlaethol o Swyddogion Datblygu proffesiynol, a chydlynyddion sydd yn eiriol dros fuddiannau gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng-Cymraeg ar Bartneriaethau Sirol.

Mae'r twf diweddar yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg wedi digwydd yn bennaf yn yr ardaloedd mwy di-Gymraeg – yn y de-ddwyrain yn bennaf, ac i raddau llai yn y gogledd-ddwyrain. Edrychwn ar rôl ieithyddol y cylchoedd hyn fel un deublyg, sef i gyfoethogi, datblygu ac ymestyn iaith siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, ac i gyflwyno seiniau'r iaith o'r newydd i blant o aelwydydd di-Gymraeg. Cryfder mawr Mudiad Ysgolion Meithrin yn y dasg o gynhyrchu mwy o

siaradwyr Cymraeg ifainc newydd yw'r cydweithio agos sydd rhyngddo â rhieni, a'r gefnogaeth y mae'n ei roi i rieni o fewn eu cymunedau eu hunain

Nid maes ieithyddol yw unig ddiddordeb Mudiad Ysgolion Meithrin, fodd bynnag. Mae rhoi cyfle cyfartal i bob plentyn fanteisio ar brofiadau cyn-ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg yn un o gonglfeini credo'r Mudiad; mae'n weithgar iawn ym maes Anghenion Addysgol Arbennig, ac yn cefnogi plant ag anghenion arbennig trwy gynlluniau cyfeirio ar draws Cymru. Mae sicrwydd ansawdd hefyd yn flaenllaw ym meddylfryd Mudiad Ysgolion Meithrin, ac i'r perwyl hwn, mae'n hyfforddi staff a gwirfoddolwyr y cylchoedd yn gyson.

Mudiad gwirfoddol yw Mudiad Ysgolion Meithrin. Hynny yw, mae'n cael ei redeg gan bwyllgorau gwirfoddol sy'n cyflogi staff proffesiynol. Mae'n cael ei reoli gan Bwyllgor Gwaith Cenedlaethol, sy'n dirprwyo gwaith arbenigol i is-bwyllgorau Cyllid a Staffio, Ansawdd a Hyfforddiant, Anghenion Arbennig, Cyhoeddusrwydd a Marchnata, a Pholisi. Mae'n cydweithio gyda nifer helaeth o asiantaethau gwirfoddol a statudol eraill er mwyn sicrhau'r lefelau ansawdd uchaf posib o Ofal ac Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn ei ddarpariaeth.

Y cydweithio sirol a chenedlaethol hwn sy'n rhoi gorolwg cenedlaethol a chryfder i'r Mudiad, ac yn ei wneud yn asiantaeth addas i gynnig ffordd ymlaen a gweledigaeth ynglyn â'r Gymraeg.

Hoffai Mudiad Ysgolion Meithrin gynnig y sylwadau canlynol ynglyn â'r ffordd ymlaen i ddatblygu'r Gymraeg, gan ddilyn y penawdau a gynigiwyd

## <u>Themau</u>

### Teuluoedd a chymunedau

Oherwydd fod Mudiad Ysgolion Meithrin yn ei hanfod yn fudiad cymunedol, byddem am ganolbwyntio rhan helaethaf ein sylwadau oddi mewn i'r thema hon.

Os yw'r Gymraeg i ffynnu, mae'n rhaid i ddau beth ddigwydd –

Yn gyntaf, mae'n rhaid sefydlogi dirywiad yr iaith yn ei chadarnleoedd, trwy bwysleisio pwysigrwydd trosglwyddiad iaith, trwy annog mewnfudwyr i'r ardaloedd Cymraeg i ddysgu'r iaith, ac i gynnig cefnogaeth y gymuned iddynt, ac yn ail, mae'n rhaid cynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd Seisnigedig.

<u>Y Fro Gymraeg</u>

O ran cadarnleoedd yr iaith, mae'n rhaid sicrhau fod y Cymry Cymraeg, ac aelwydydd cymysg

eu hiaith yn trosglwyddo'r iaith i'w plant.

Teimla Mudiad Ysgolion Meithrin nad oes digon o gyhoeddusrwydd wedi ei roi hyd yn hyn i'r angen hwn, er mae'n siwr y bydd yn gwella gyda gweithredu prosiect Trosglwyddiad Iaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg. **Dylid cynnal ymgyrch farchnata genedlaethol ynglyn â phwysigrwydd trosglwyddo iaith ar yr aelwyd, nid yn unig ymysg darpar rieni a rhieni, ond hefyd ymysg pobl ifainc yn eu harddegau o fewn cwmpas gwaith eu gwersi Personol a Chymdeithasol.**

Beth sydd ei angen yn gyflym, fodd bynnag yw cynllun, canllawiau a hyfforddiant ar gyfer teuluoedd cymysg eu hiaith ar sut i ymdopi â dwy iaith ar aelwyd. **Dylid llunio cynllun ar frys, a dylai canllawiau, a'r cynllun ei hun fod ar gael am ddim i bob teulu sy'n dymuno hynny, ynghyd â hyfforddiant perthnasol ar sut i'w weithredu.**

Mae'n rhaid sicrhau fod cyfleoedd ar gael i fewnfudwyr nid yn unig i ddysgu'r iaith o fewn eu cymunedau, ond hefyd fod cymorth ar gael fel y gallant fod yn ymwybodol o ystyriaethau diwylliannol yr ardaloedd hynny y maent wedi ymsefydlu ynddynt. Nid gwaith asiantaethau megis CYD a Chymraeg i Oedolion yn unig yw hyn – mae'n waith i'r gymuned gyfan, ac i bob cymdeithas sy'n gweithio oddi mewn, o ofal ac addysg blynyddoedd cynnar, i'r ysgol gymradd a'r ysgol uwchradd, a darparwyr cyfleoedd anffurfiol megis Urdd Gobaith Cymru, Merched y Wawr, Ffermwyr Ifainc, a sefydliadau fel capeli ac eglwysi, clybiau garddio, a'r dafarn leol. **Yng ngyd-destun hyn, mae angen llunio canllawiau, a chynnig hyfforddiant i aelodau'r gymuned leol ar sut i siarad â dysgwyr yn Gymraeg.**

<u>Mesurau atodol</u>

Mae angen cryfhau gallu pobl ifainc i weithio o'u broydd, gan gynyddu lefelau hyfforddiant ac adnoddau mewn cyfrifiaduron a chyfathrebu electroneg. Mae angen arafu'r all-lif i ddinasoedd megis Caerdydd, ond ni ellir gwneud hyn onibai fod cyfleoedd gwaith yn lleol, a bod cyflogau uwch ar gael mewn ardaloedd gwledig. Does dim digon o bwysigrwydd yn cael ei roi i farchnata cyfleoedd i bobl ifainc i aros yn eu broydd.

**I atgyfnerthu mesurau o'r fath, dylid edrych ar fesurau i sicrhau canran o dai ymhob ardal i bobl leol ar brisiau y gallant eu fforddio. Nid dadl ieithyddol mo hon – mae'n ddadl economaidd – ond un a allai helpu'r iaith yn sgîl ei weithredu**

Mae cyfraniad sefydliadau addysg bellach ac uwch i'r darlun cyflawn yn hollbwysig.

**Dylid edrych ar ddulliau i ymestyn a datblygu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sefydliadau hyn yng Nghymru.**

**Dylai fod ystod llawn o gyrsiau cyfrwng-Cymraeg ar gael oddi mewn i sefydliadau addysgol yng Nghymru, ond yn ogystal, dylid cynnig tâl anogaeth i fyfyrwyr â sgiliau dwyieithog i dderbyn swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol. Gall swyddi fel hyn gynnwys swyddi lle mae prinder dybryd ar hyn o bryd – megis athrawon, therapyddion, a seicolegwyr addysg**.

Ardaloedd di-Gymraeg

Yn yr ardaloedd hynny sy'n bennaf ddi-Gymraeg, mae'n rhaid buddsoddi arian mewn ymgyrch farchnata ddwys ynglyn â gwerth dysgu'r iaith a honno'n ymgyrch farchnata hir-dymor, gan bwysleisio manteision fel mwy o ddewis o swyddi. Mae'n rhaid sicrhau fod pobl yn gwybod sut mae cael at gyfleusterau a darpariaethau Cymraeg, ac mae'n rhaid wrth gyfundrefn strwythuredig o gefnogaeth i deuluoedd sy'n ymdrechu i fod yn ddwyieithog. Mae newid agweddaeth pobl tuag at y Gymraeg yr un mor bwysig â dysgu'r iaith, a dylid cefnogi mudiadau ac unigolion megis ymwelyddion iechyd, sy'n gweithio'n agos â'r di-Gymraeg, fel y gallant barhau a datblygu'r elfen bwysig hon.

Cyffredinol

Ymhob ardal, fodd bynnag, mae'n rhaid tynnu'r Gymraeg allan o sefyllfa'r dosbarth, a chreu mwy o gyfleoedd i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd cymdeithasol, anffurfiol.

**Dylid darparu adnoddau digonol i fudiadau fel Urdd Gobaith Cymru, y Mentrau Iaith, a'r Ffermwyr Ifainc i alluogi hyn i ddigwydd yn lleol. Dylid pwyso ar asiantaethau eraill fel y Sgowtiaid, y Geidiaid, Cynllun Dug Caeredin, Clybiau Ieuenctid, a'r Princes Trust, er enghraifft i ddarparu mwy o gyfleon trwy'r Gymraeg, ac i ddarparu adnoddau hyfforddiant os oes angen i'w galluogi i wneud hynny**.

Mae'r sylwadau hyn yn elfennol iawn. Mae'r tasgau yn amlwg.

**Beth na sydd yn ei le fodd bynnag yw cyfundrefn sy'n caniatau cyd-weithio strategol lleol, sirol, a chenedlaethol. Mae'r adnoddau cyllidol ar hyn o bryd yn hynod o brin. Mae'n bryd cyd-gordio ymdrechion er mwyn sicrhau fod y defnydd gorau yn cael ei wneud ohono. Byddem am sicrhau sefydlu gweithgor cenedlaethol wedi ei gadeirio gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ac wedi ei gyllido gan y Cynulliad o fudiadau cenedlaethol sy'n gweithio mewn unrhyw faes ieithyddol. Byddai mudiadau fel hyn yn cynnwys mudiadau fel Mudiad Ysgolion Meithrin, Mentrau Iaith Cymru, Urdd Gobaith Cymru. Y Ffermwyr**

**Ifainc, Merched y Wawr, CYD, Cymraeg i Oedolion ac eraill, gyda'r gallu i wahodd asiantaethau statudol o dro i dro. Byddai hyn yn sicrhau strategaeth gyson ac effeithiol, a gweithredu effeithlon trwy Gymru gyfan**

**Byddai mewnbwn gan gynllunwyr ieithyddol, a chanllawiau gweithredu neu hyfforddiant perthnasol yn hollbwysig er mwyn rhoi arweiniad i'r gweithgor a magu arbenigedd ymysg yr asiantaethau hyn.**

**Byddai angen wedyn adlewyrchu strwythur gyffelyb yn sirol, a chael gweithgorau iaith sirol, dan gadeiryddiaeth y Fenter Iaith leol, yn gweithio i nodau'r gweithgor cenedlaethol. Rôl y gweithgor sirol fyddai ystyried anghenion y sir, a llunio cynllun gweithredu fyddai'n defnyddio arbenigedd yr holl bartneriaid yn y ffordd mwyaf effeithiol. Byddai'r gweithgorau sirol hyn yn gweithio oddi mewn i'r strategaeth genedlaethol, ac yn atebol i'r gweithgor cenedlaethol**.

**Mae angen cefnogaeth gyson gan Fwrdd yr Iaith hefyd i sicrhau llwyddiant strategaethau tymor hir. Mae angen ystyried cynyddu cyllideb Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn sylweddol, oherwydd rhaid cydnabod nad trwy brosiectau tymor byr y bydd datblygu'r iaith yn digwydd – ond trwy barhau'r gefnogaeth, ac ymestyn i brosiectau newydd. O ran hyn, byddai'n haws i fudiadau gynllunio dros dymor hir pe bai modd i'r Bwrdd roi sicrwydd tair mlynedd o gyllid i fudiadau, fel mae rhai adrannau o'r Cynulliad yn ei roi.**

<u>Datblygu economaidd</u>

Rydym o'r farn fod y gyfundrefn bresennol o 22 o siroedd yn llesteirio gallu siroedd i gynnig gwasanaethau arbenigol i gefnogi'r Gymraeg mewn sawl achos, ac y byddai dychwelyd at drefn o 8 sir yn fanteisiol i hyrwyddo datblygu'r Gymraeg ymhob sir.

Does dim dwywaith fod cyfundrefn ffyrdd a rheilffyrdd Cymru yn rhwystr i ardaloedd gwledig ddatblygu yn economaidd, yn enwedig felly yn y canolbarth/gorllewin. Byddai buddsoddi i greu gwell cyfundrefn drafnidiaeth yn fodd nid yn unig i ddenu busnesau i ardaloedd mwy gwledig, ond hefyd yn fodd i fwy o bobl ifainc efallai dderbyn swyddi ymhellach o'u cartrefi, heb iddynt orfod gadael cartref i wneud hynny.

Yng nghyd-destun cwmniau a busnesau yn symud i ardal arbennig yng Nghymru, dylid pwyso ar bob busnes o'r fath i ystyried nodweddion ieithyddol a diwylliannol yr ardal honno

.

**Dylid darparu cymhelliant ariannol i gwmniau ac asiantaethau i'w galluogi i gynnig cyfleon i'w gweithlu i ddysgu'r Gymraeg yn y gweithle, a'u gwneud yn ymwybodol o fodolaeth y fath gronfa, a'r cyrsiau sydd ar gael yn lleol. Dylid comisiynu asiantaeth/ asiantaethau i gynllunio cyrsiau penodol ar gyfer eu cyflwyno yn y gweithle, a'u marchnata yn genedlaethol.**

**Dylid gwneud arolwg manwl Cymru gyfan o anghenion rheini parthed gofal dydd cyfrwng Cymraeg, a llunio strategaeth i'w ddiwallu, gan gynnwys astudiaeth o anghenion busnesau bychain ac ardaloedd gwledig.**

Er mai bychan yw'r sylw, un rhwystr i bobl ddefnyddio'r iaith gyda masnachwyr yw eu amharodrwydd i wneud hynny rhag ofn cael ymateb nacaol. Mae angen parhau â, ac ehangu prosiect bathodynnau "dwyieithog" Bwrdd yr Iaith Gymraeg, fel y gall y cyhoedd adnabod gweithwyr dwyieithog.

<u>Ymchwil a datblygu</u>

**Dylid gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, ac effeithiolrwydd dulliau cydnabyddedig, a dylid neilltuo cyllid i alluogi arbenigwyr megis yr Athro Colin Baker a'r athro Colin Williams i gynnal ymchwil i gefnogi penderfyniadau ynglyn â strategaeth ieithyddol.**

Mae angen i asiantaethau'r Cynulliad ddeall anghenion a sefyllfa'r Gymraeg a sicrhau nad yw mesurau newydd sy'n cael eu dyfeisio a'u cyflwyno yn gwanhau sefyllfa'r iaith. Mae angen ystyried sefyllfa'r Gymraeg oddi mewn i bob menter newydd.

Byddai cyllido ymweliadau â gwledydd eraill sy'n flaenllaw ym maes dwyieithrwydd ac aml-ieithrwydd, megis Canada, Seland Newydd, a Sbaen gan staff allweddol rhai mudiadau gwirfoddol yn sicrhau lefelau uwch o ddealltwriaeth o gynllunio ieithyddol

Mae rôl bwysig i'w chyflawni gan Gynlluniau Iaith a Chynlluniau Addysg Sirol. ond credwn y dylid ail edrych ar systemau eu monitro er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu fel y dylent.

**Teimlwn yma fod rôl i'r Mentrau Iaith sirol fonitro gweithredu'r cynlluniau ar lawr gwlad, ac i adrodd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar unrhyw bryderon a phroblemau. Byddai hyn yn lleihau pwysau ar Fwrdd yr Iaith i ddelio â phroblemau lleol, ond yn hytrach yn eu galluogi i weithredu fel cynghorydd i'r Mentrau. Gallai Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedyn**

**ganolbwyntio ar fudiadau ac asiantaethau cenedlaethol, ond byddai hyd yn oed hyn yn golygu y bydd angen fwy o adnoddau ar y Bwrdd.**

**Pwysleisiwn mai hybu dwyieithrwydd fel norm o fewn Cymru yw'r nod, ac i'r perwyl hwn, credwn fod agweddaeth yn bwysig – ac y gellid cael y fendith fwyaf trwy weithio â rhieni pan mae eu plant yn ifanc**

I gloi, hoffem wneud y sylw ein bod, fel mudiad wedi ceisio canolbwyntio ein sylwadau ar feysydd sydd yn berthnasol i'n gwaith a defnyddwyr ein gwasanaethau, a'n bod wedi ymatal rhag cynnig ymatebion i rhai meysydd sydd y tu allan i'n cylch gwaith.

Hywel Jones

Prif Weithredwr

Mudiad Ysgolion Meithrin

22 Hydref 2001

(*gyda chydnabyddiaeth i Catrin Stevens am ystadegau a dyfyniadau o'i llyfr ar hanes Mudiad Ysgolion Meithrin – *Meithrin* )